

Cwis y Goedwig

Rownd 1 - Coed o amgylch y byd

1. Pa fath o goed a pha goedwig sy'n gysylltiedig gyda straeon Robin Hood?
2. Pa wlad sy'n darparu coeden Nadolig ar gyfer Sgwâr Traffalgar?
3. Pa un yw coeden uchaf y byd?
4. Yn Japan, pan fydd y coed ceirios cyntaf yn blodeuo, bydd y Japaneaid yn:
 - a. dawnsio o amgylch y coed ceirios?
 - b. cael picnic oddi tanynt.
 - c. lliwio'u dillad yn binc?
5. Beth yw enw'r goeden gas yng ngerddi Ysgol Hogwarts?

Rownd 2 - Profwch eich gwybodaeth am goed

1. Pa fath o ddiagram sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos eich cyndeidiau?
2. Beth mae'r gangen olewydd yn ei gynrychioli? Bonws: Gyda pha aderyn mae'n cael ei gysylltu?
3. Pa fath o lefydd sy'n cael eu cysylltu fel rheol gyda choed Ywen?
4. O ble y daw asbirin?
5. Beth yw dendrocronoleg?
6. Beth yw enw'r broses pan fo coed yn gwneud eu bwyd?
7. Pa nwy mae coed yn ei anadlu i mewn, a pa nwy maen nhw'n ei anadlu allan?
8. Beth mae coeden collddail yn ei wneud bob blwyddyn?

Rownd 3 - Coedwigoedd glaw

1. Gwir neu gau. Mae coedwigoedd glaw yn cynnwys dros hanner bioamrywiaeth y byd (planhigion ac anifeiliaid)?
2. Enwch 4 haenen y goedwig law
3. Mae coedwigoedd glaw weithiau'n cael eu disgrifio fel
 - a. system nerfau'r byd
 - b. ysgyfaint y byd
 - c. calon y byd
4. Ble mae goedwig law fwyaf y byd?
5. Mae rhai coedwigoedd glaw yn gartref i lwythau hynafol sydd weithiau'n defnyddio gwenwyn o'r goedwig ar gyfer eu dartiau. O ble ddaw'r gwenwyn?
 - a. Poer galago
 - b. Glandiau mwnci
 - c. Brogaod
 - ch. Adar
6. Enwch 3 o achosion datgoedwigo
7. Mae planhigfeydd olew palmwydd yn achosi dinistr y coedwigoedd glaw. Gwir neu gau: Mae palmwydd olew yn gynhwysion yn y mwyafrif o fwydydd wedi'u prosesu.
8. Sut gall bwyta llai o gig helpu coedwigoedd glaw?

9. Elusen ydy Maint Cymru sy'n codi arian i helpu i warchod coedwigoedd glaw ar draws y byd mewn ardal maint Cymru. Maint Cymru yw:
- a. 150,000 cae rygbi
 - b. 1 miliwn cae rygbi neu
 - c. 2 miliwn cae rygbi

Rydym yn gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r cwis hwn ac y byddwch eisiau gwneud cyfraniad i helpu i warchod coed, pobl ac anifeiliaid mewn ardal o goedwig law maint Cymru.

Rownd 1 - Coed o amgylch y byd - gydag atebion

1. Pa fath o goed a pha goedwig sy'n gysylltiedig gyda straeon Robin Hood?

Grennword, Coedwig Sherwood, Swydd Nottingham

2. Pa wlad sy'n darparu coeden Nadolig ar gyfer Sgwâr Traffalgar?

Norwy

3. Pa un yw coeden uchaf y byd?

Redwood, neu'r enw Lladin *Sequoia Sempervirens*

4. Yn Japan, pan fydd y coed ceirios cyntaf yn blodeuo, bydd y Japaneaid yn:

- a. dawnsio o amgylch y coed ceirios?
- b. cael picnic oddi tanynt.
- c. lliwio'u dillad yn binc?

Byddant yn cael picnic

5. Beth yw enw'r goeden gas yng ngerddi Ysgol Hogwarts?

The Whomping Willow

Rownd 2 - Profwch eich gwybodaeth am goed - gydag atebion

1. Pa fath o ddiagram sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos eich cyndeidiau?

Coeden deuluol

2. Beth mae'r gangen olewydd yn ei gynrychioli? Bonws: Gyda pha aderyn mae'n cael ei gysylltu?

Heddwch ac ewyllys da. Bonws: Y golomen

3. Pa fath o lefydd sy'n cael eu cysylltu fel rheol gyda choed Ywen?

Mynwentydd

4. O ble y daw asbirin?

Rhisgl yr helygen

5. Beth yw dendrocronoleg?

Astudiaeth o gyfrifo oedran coeden

6. Beth yw enw'r broses pan fo coed yn gwneud eu bwyd?

Ffotosynthesis

7. Pa nwy mae coed yn ei anadlu i mewn, a pa nwy maen nhw'n ei anadlu allan?

Carbon deuocsid (CO_2) i mewn ac ocsigen allan

8. Beth mae coeden collddail yn ei wneud bob blwyddyn?

Colli dail

Rownd 3 - Coedwigoedd glaw - gydag atebion

1. Gwir neu gau. Mae coedwigoedd glaw yn cynnwys dros hanner bioamrywiaeth y byd (planhigion ac anifeiliaid)?

Gwir

2. Enwch 4 haenen y goedwig law

Yn dechrau o safbwynt y morgrugyn, mae llawr y goedwig, y prysgwydd neu isdyfiant (under story), y canopi a'r lefel allddyfodol (emergent layer).

3. Mae coedwigoedd glaw weithiau'n cael eu disgrifio fel

- a. system nerfau'r byd
- b. ysgyfaint y byd
- c. calon y byd

Yr ysgyfaint, gan eu bod nhw'n anadlu CO₂ i mewn ac ocsigen allan
give out oxygen

4. Ble mae coedwig law fwyaf y byd?

Yr Amazon, Brazil

5. Mae rhai coedwigoedd glaw yn gartref i lwythau hynafol sydd weithiau'n defnyddio gwenwyn o'r goedwig ar gyfer eu dartiau. O ble ddaw'r gwenwyn?

- a. Poer galago
- b. Glandiau mwnci

c. Brogaod

ch. Adar

6. Enwch 3 o achosion datgoedwigo

Unrhyw rai o'r canlynol: Amaethyddiaeth (olew palmwydd, soia a chig eidion anghynladwy) torri coed yn anghyfreithlon, mwyngloddio, argae, datblygiad diwydiannol, datblygiad trefol, adeiladu heolydd.

7. Mae planhigfeydd olew palmwydd yn achosi dinistr y coedwigoedd glaw. Gwir neu gau: Mae palmwydd olew yn gynhwysion yn y mwyafrif o fwydydd wedi'u prosesu.

Gwir. Mae llawer o goedwigoedd glaw yn cael eu torri lawr i dyfu palmwydd olew, a gallwn ddod o hyd iddo mewn bisgedi, melysion, siampw, menyn pysgnau ac mewn llawer o bethau eraill rydym yn eu bwyta

8. Sut gall bwyta llai o gig helpu coedwigoedd glaw?

Mae coedwigoedd glaw yn cael eu dinistrio i ddarparu tir pori ar gyfer porthiant gwartheg ac anifeiliaid. Mae ar hyn o bryd galw enfawr yn fyd-eang am gig ac ar ben hyn, mae gwartheg yn cynhyrchu nwy methan. Bydd bwyta llai o gig yn helpu lleihau'r galw amdano. A allwch ymchwilio i hyn ymhellach?

9. Elusen ydy Maint Cymru sy'n codi arian i helpu i warchod coedwigoedd glaw ar draws y byd mewn ardal maint Cymru. Maint Cymru yw:

- a. 150,000 cae rygbi
- b. 1 miliwn cae rygbi neu
- c. 2 miliwn cae rygbi

Maint Cymru

Cyfnod Allweddol Dau



2 miliwn cae rygbi neu 2 miliwn hectar

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r cwis hwn, ac y byddwch yn rhoi rhodd i helpu i warchod coed, pobl ac anifeiliaid mewn ardal o goedwig law ddwywaith Maint Cymru.